

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod Ebrill 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Iestyn Harris	Nerys John	
Mair Bebb Jones	Einir Coates	
Casi Roberts		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Llewelyn Williams drwy groesawu'r aelodau. Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Gruff John, Aled Emyr, Mei Gwilym a Peter Simpson. Derbyniwyd hefyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sarha Riley ond ar yr un pryd roedd yn gofyn am absenoldeb swyddogol am gyfnod o 6 mis. Roedd y Cyngor yn unfrydol yn derbyn y cais ac yn ei ganiatáu. Anfonwyd llongyfarchiadau'r holl gyngor gan y Cadeirydd at Sarah a Bryn ar enedigaeth eu mab.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Croesawyd y Cynghorydd Sir i'r cyfarfod ac estynnwyd gwahoddiad iddo gyfarch y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Sir bod trigolion wedi dod ato yn awyddus i wirfoddoli i dorri gwair o fewn y pentref. Trafodwyd y mater gan y Cyngor a dywedyd mai sefyllfa'r Cyngor yw nad yw yn gallu annog na methu rhoi caniatâd i'r unigolyn i wneud unrhyw waith o fewn y briffordd. Trafodwyd mater o dorri gwair a'r lleoliadau sydd angen toriad ychwanegol i'r hyn sydd yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd marcio map gyda'r lleoliadau yma yng nghyfarfod mis Mai.	DW
2.2	Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir at y bin ail-gychu ar ddiwedd Lwybr Afon Heulyn, sydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu bariau baw cŵn. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r Cynghorydd Sir yn delio ar fater hwn.	GG
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog ariannol yr adroddiad ar gyfer Mis Mawrth. Derbyniwyd y gwariant. Cynigwyd ac eiliwyd hwy fel rhai cywir.	SWYDDOG ARIANNOL
4.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol mantolen flynyddol yn cynnwys cymhariaeth o'r gyllideb drafft a'r gwir gyllideb am y llynedd. Nid oedd y wybodaeth ar gyfer trafodaeth o fewn y	SWYDDOG ARIANNOL

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	cyfarfod misol ond ar gyfer aelodau cael amser i'w hastudio ac os oedd cwestiynau yn codi yna iddynt anfon ato am eglurhad.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth fel rhai cywir. Llofnodwyd i ddatgan hynny	
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Cyflwynodd Y Cadeirydd adroddiad ar lafar. Cyfeiriodd at goed o eiddo'r Clwb Adar oedd wedi eu tynnu i ffwrdd rhai wythnosau yn ôl; dywedodd ers hynny mae twll pryd wedi eu darganfod ynddynt. O ganlyniad bydd rhaid archwilio'r rhan o'r neuadd lle rhoeddânt wedi eu cadw. Os bydd tystiolaeth bod pryd yna bydd rhaid cael arbenigwyr i ddelio a'r mater.	DW
6.2	Roedd anfoneb gan Owen & Palmer wedi ei dderbyn ar ôl gwaith i oleuadau o fewn y toiledau. Cytunwyd i'r Swyddog Ariannol i dalu'r anfoneb.	SWYDDOG ARIANNOL
6.3	Dywedodd y Cadeirydd bod lleoliad wedi ei benderfynu ar gyfer lleoli cwt yr offer casglu sbwriel.	
6.4	Dywedodd hefyd bod lleoliad o dan y railings ar ochr Gaernarfon y neuadd wedi ei benodi ar gyfer y Bag Tywod. Dywedodd oherwydd natur y llifogydd byddai bag arall o fudd a bydd hwn yn cael ei leoli yn y Clwb Hwyllo os bydd y Clwb yn rhoi caniatâd.	DW
6.5	Mae cyfarfod i'w gynnal gyda'r Ofalwraig yn fuan iawn ar gyfer trafod y dyletswyddau'r contract waith gyda'r is-bwyllgor cyflogaeth.	
6.6	Roedd ambell i waith yn dal yn disgwyl cael ei gwblhau,. Dywedodd y Swyddog Ariannol bydd angen clustnodi cyllid ar gyfer y gwaith yn y cyfarfod misol nesaf.	
6.7	Er mwyn symud ymlaen gyda'r sistem llogi mae angen cael cyfrif. Dywedodd y Clerc bod y cyfrif bellach yn bodoli. Er mwyn i'r bobl berthnasol ddeall y sistem mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 24 Ebrill am 7 yn y Neuadd Goffa ar gyfer cael hyfforddiant ar y sistem. Yn y Cyfarfod hwn hefyd byd cyfle i edrych ar y telerau ac amodau.	
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Diolchwyd i'r rhai oedd wedi tynnu'r torchau oddi ar safle'r cloc. Trafodwyd bod 9 pot blodau o amgylch y cloc a bod y blodau yma yn cael eu cynnal bob tymor am gyfanswm o £400 y flwyddyn gan Menter Fachwen. Roedd hyn yn dderbyniol gan y	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Cyngor a phenderfynwyd parhau a'r drefn; er hynny'r clerc i sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig mewn grym.	CLERC
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
	Dim	
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
	Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Drysorydd yr Eglwys am gyfraniad y Cyngor Cymuned i waith cynnal mynwent yr Eglwys.	
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Eglurodd y Clerc ei bod wedi hysbysu Robin Perkins o'r tir lithriad i'r Lon Las ger Seilo. Bydd y Clerc yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r Swyddog er mwyn gallu anfon gwybodaeth gyfredol ar y mater.	CLERC
10.2	Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn sicrhau planhigion lafant newydd i Safle Moriah.	DW/CLERC
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
11.1	Cafwyd adroddiad bod canghennau coed o fewn stad y Faenol wedi torri ond heb syrthio i'r llawr yn beryglus gan eu bod ar draws Llwybr cyhoeddus Afon Heulyn. Y Clerc i anfon at yr adran Llwybrau i ddweud am hyn	CLERC
11.2	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Eifion Williams ei fod wedi bod a'r safle Llwybr Cerrig yr Afon i weld beth sydd angen ei wneud a'r ffens sydd yn caniatáu anifeiliaid i gael mynedfa i'r afon er mwyn allu egluro a rhoi cyfarwyddiadau i gontractwr. Y Cadeirydd i roi enw a rhif cyswllt contractwr i'r Cynghorydd Eifion Williams	DW/EW
11.3	Rhoddodd y Cynghorydd Eifion Williams adroddiad ei fod wedi cysylltu â'r Contractwr torri gwair er mwyn cael cadarnhad pa lwybrau sydd yn cael gwaith cynnal ganddo. Cafwyd gwybod bod llwybrau rhifau 1, 2, 4, 8, 22 23 yn derbyn sylw pob mis Awst. Trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd bod angen i'r llwybrau dderbyn gwaith yn Mehefin ag Awst. Bydd atodlen waith yn cael ei pharatoi gan y Cynghorydd Nerys John wedi cyfarfod a'r contractwr a'r Cynghorydd Eifion Williams a'i chyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod misol nesaf.	EW/NJ
11.4	Rhoddwyd adroddiad bod baw ci wedi ei ddarganfod yng nghysgodfan Bws top Allt Dinas, mae'r mater wedi ei ddelio ag ef.	
11.5	Dywedyd bod Perspex rhai o'r cysgodfannau angen eu hadnewyddu. Y Clerc i gael pris am y	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	gwaith.	
12.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
12.1	Derbyniwyd llythyr gan Allan Bowers a'r cyflwyno llinellau melyn ger y Marina. Rhoddwyd eglurhad o gynnwys y Llythyr gan y Cadeirydd. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i wneud ymholiadau ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol a'r cynllun arfaethedig. Mae'r Cynghorydd Sir yn ymdrin â'r Maes Parcio er mwyn dod o hyd i wybodaeth os oes amod yn bodoli arno ar hyn o bryd. Pan fydd gwaith y datblygiad yn cael ei weithredu yna bydd amod yn bodoli arno.	CLERC GG
12.2	Mae llawer o dyllau mewn amryw o ffyrdd o fewn y pentref. Trafodwyd y mater hwn. Bydd y Cyngor yn anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â rhain ond hefyd mae'n hanfodol bod unigolion o fewn y pentref yn gwneud hefyd drwy ddefnyddio sustem gwyno ar lein Cyngor Gwynedd. Y Clerc i sicrhau bod gwybodaeth sut mae gwneud hyn yn cael ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned.	CLERC
13.0	PROSIECTAU	
13.1	Mae cyfarfod ynglŷn â chreu hybiau casglu sbwriel i'w drefnu.	
13.2	Cafwyd adroddiad bod y Coed ar leoliad cwmp y cwlfer ger Cerrig Yr Afon wedi eu plannu. Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am ymdrin â'r sefyllfa mor sydyn ac i wneud gwaith annisgwyl a thu allan i'r gyllideb flynyddol. Roedd y gwaith yn bwysig iawn gan fod y brîf lwybr fibre optic rhwng Bangor a Chaernarfon o dan fgythiad.	
13.3	Diolch i Anwen Lyn am eu gwaith o ennill grantiau ar gyfer plannu'r coed a hefyd am sicrhau hadau ar gyfer hau blodau gwyllt yn y dyfodol agos.	
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	dim	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
15.1	Cyfarfod buddiol wedi bod a gwaith swmpus wedi ei wneud hyd yma. Mae'r Cynghorydd Eifion Williams yn brysur yn rhoi'r cynllun at ei gilydd yn ysgrifenedig. Nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau hyd yma. Gobeithir dangos y cynllun hyd yma yn y cyfarfod ar y 24 Ebrill.	DW/EW
16.0	GWEFAN	
	Cyfrif Sgribe wedi ei wneud. Bydd angen cael hyfforddiant gan Delwedd. Gobeithir bydd Delwedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod Nos Fawrth nos Fawrth nesaf	IH/SR/CR/MG
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.3	General Data Protection Regulation - trafodwyd	IH

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	y mater hwn. Bydd y Clerc, Y Swyddog ariannol a'r Cynghorydd Iestyn Harris yn mynychu noson hyfforddiant ar y 19 Ebrill 2018 yn yr Institiwt yng Nghaernarfon.	
17.4	Trafodwyd gosod Defibulators o fewn y Gymuned. Fwy na thebyg bydd angen 3 oherwydd bod y pentref yn hir. Bydd angen cyflenwad trydan ar gyfer yr offer. Syniad ydi efalla defnyddio ciosgau ffon sydd bellach unai ddim yn gweithio neu wedi eu dileu. Os defnyddir ciosgau yna bydd angen i'r Cyngor Cymuned eu mabwysiadu.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		Dyddiad: